

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A487
(Pentood, man i'r de o Aberteifi,
Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 30
mya Dros Dro a Dim
Goddiweddyd) 2019

The A487 Trunk Road (Pentood,
south of Cardigan, Ceredigion)
(Temporary 30 mph Speed Limit &
No Overtaking) Order 2019

Gwnaed 30 Gorffennaf 2019

Made 30 July 2019

Yn dod i rym 1 Awst 2019

Coming into force 1 August 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A487, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of the likelihood of a danger to the public on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Pentood, man i'r de o Aberteifi, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 30 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2019 a daw i rym ar 1 Awst 2019.

1. The title of this Order is the A487 Trunk Road (Pentood, south of Cardigan, Ceredigion) (Temporary 30 mph Speed Limit & No Overtaking) Order 2019 and it comes into force on 1 August 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984(2); a

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y cyfyngiad” (“*restricted period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 1 Awst 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor ym Mhentod, man i'r de o Aberteifi, Ceredigion sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Longdown Street hyd at bwynt 400 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cyfyngiad, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwyso

5.—(1) Ni fydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“restricted period” (“*cyfnod y cyfyngiad*”) means the period commencing at 09:00 hours on 1 August 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road at Pentod, south of Cardigan, Ceredigion that extends from a point 800 metres west of the centre-point of its junction with Longdown Street to a point 400 metres east of the centre-point of that junction.

Restriction and Prohibition

3. No person may, during the restricted period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the length of the trunk road.

4. No person may, during the restricted period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road.

Application

5.—(1) The restriction and prohibition in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Gorffennaf 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 30 July 2019

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(PENTOOD, MAN I'R DE O ABERTEIFI,
CEREDIGION) (TERFYN CYFLYMDER 30
MYA DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a hwyluso'r broses o reoli traffig yn ddiogel ar gefnffordd yr A487 neu gerllaw iddi ym Mhentood, Ceredigion yn ystod Sioe Sir Aberteifi 2019.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder dros dro o 30 mya a gwahardd goddiweddud ar y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Longdown Street hyd at bwynt 400 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro yn dod i rym am 09:00 o'r gloch ar 1 Awst 2019 ac yn weithredol tan 18:00 o'r gloch ar 5 Awst 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys, fel mesur wrth gefn, am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://gweddiill.llyw.cymru/legislation/subordinate>: (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig dros dro/ 2019).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (PENTOOD, SOUTH
OF CARDIGAN, CEREDIGION) (TEMPORARY
30 MPH SPEED LIMIT & NO OVERTAKING)
ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to ensure the safety of road users and to assist with the safe management of traffic on or near the A487 trunk road at Pentood, Ceredigion during the Cardigan County Show 2019.

The effect of the Order is to temporarily impose a 30 mph speed limit and prohibit overtaking on the length of the A487 trunk road that extends from a point 800 metres west of the centre-point of its junction with Longdown Street to a point 400 metres east of the centre-point of that junction.

The temporary restriction and prohibition are expected to come into force at 09:00 hours on 1 August 2019 and operate until 18:00 hours on 5 August 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid, as a contingency, for a maximum period of 6 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gweddiill.gov.wales/legislation/subordinate> (Select: Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government